# Pwyllgor Cynaliadwyedd

**SC(3)-02-08: (p2): 24 Ionawr 2008**

## Papur Ar Gyfer Pwyllgor Cynaliadwyedd Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 24 Ionawr 2008

**Paratowyd gan:**
**Jane Davidson AC**
**Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai**
**Ionawr 2008**

### Cyflwyniad

Mae'r papur hwn yn esbonio'r datblygiadau diweddaraf, yn unol â chais y Pwyllgor, o ran:

A - Mesur Newid yn yr Hinsawdd y Deyrnas Unedig

B - Mesur Cynllunio'r Deyrnas Unedig

C - Y Ddeddf Arbed Ynni Cartref

### A - Y Mesur Newid Yn Yr Hinsawdd

### Cyflwyniad

2. Mae'r canlynol yn disgrifio'r diweddaraf yn hanes y Mesur Newid yn yr Hinsawdd gan roi sylw arbennig i agweddau ar y Mesur sy'n neilltuol o berthnasol i Gymru ac i'r cyfrifoldebau y bydd yn eu rhoi ar Weinidogion Cymru.

3. Mae'r Mesur yn cael ei ystyried ar hyn o bryd gan y Senedd ac mae'r sefyllfa a ddisgrifir yn y papur hwn yn adlewyrchu'r Mesur fel ag yr oedd ar 9 Ionawr 2008.

### Cefndir

4. Hwn yw'r Mesur cyntaf o'i fath sy'n creu fframwaith ar gyfer rhoi ymrwymiad cyfreithiol tymor hir i leihau allyriadau carbon deuocsid ac i addasu i newid yn yr hinsawdd.

5. Dyma brif ddarpariaethau'r Mesur:

Cyfres o dargedau clir ar gyfer lleihau allyriadau carbon deuocsid gan gynnwys ymrwymiad i'w lleihau 60% fan leiaf erbyn 2050;

System newydd o gyllidebau carbon pum mlynedd i bennu terfynau ar ryddhau carbon deuocsid; bydd grym cyfreithiol iddynt a byddant yn cael eu pennu o leiaf 15 mlynedd ymlaen llaw

Creu corff statudol newydd, Y Pwyllgor ar Newid Hinsawdd, i roi cyngor, gwybodaeth a barn annibynnol arbenigol a chymorth arall i'r Llywodraeth a'r gweinyddiaethau datganoledig ar gyrraedd targedau a chadw at y cyllidebau carbon ac ar agweddau mwy cyffredinol ar newid yn yr hinsawdd;

Cymalau fydd yn caniatau'r DU i brynu gostyngiadau yn allyriadau gwledydd tramor, yn unol ag ymrwymiadau rhyngwladol y DU, a sicrhau bod y gostyngiadau'n cael eu gwneud yn y ffordd fwyaf cost effeithiol;

Rhoi pwerau i gyflwyno cynlluniau masnachu allyriadau trwy is-ddeddfwriaeth;

Ymrwymiad ar y Llywodraeth i gyflwyno adroddiadau blynyddol agored a thryloyw i'r Senedd sy'n ymateb i'r adroddiadau blynyddol annibynnol a baratoir gan y Pwyllgor ar Newid Hinsawdd.

Gofyn i'r Llywodraeth baratoi adroddiad o leiaf bob pum mlynedd ar effeithiau cyfredol a disgwyliedig y newid yn yr hinsawdd yn y DU ac ar ei chynigion a'i pholisïau ar gyfer addasu iddo.

6. Cyhoeddodd yr Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, y Gwir Anrhydeddus Hilary Benn AS, Bapur Gorchymyn o'r enw "Taking Forward the UK Climate Change Bill' ar 29 Hydref 2007. Esboniai ymateb Llywodraeth y DU i'r gwaith craffu a wnaed cyn y broses ddeddfu ac i'r ymgynghoriad cyhoeddus.

7. Y prif newidiadau a wnaed i'r Mesur yn sgil y gwaith craffu hwn a'r ymgynghoriad cyhoeddus oedd:

Cryfhau rôl a chyfrifoldebau'r Pwyllgor ar Newid Hinsawdd, gan gynnwys gorfodi'r Llywodraeth i ofyn i'r Pwyllgor am ei gyngor cyn newid targedau 2020 neu 2050;

Gwneud y Pwyllgor yn fwy annibynnol ar y Llywodraeth trwy gadarnhau y bydd yn penodi ei brif weithredwr a'i staff ei hun, a chynyddu

ei adnoddau dadansoddi;

Sicrhau mwy o drylwyder, trwy ei gwneud yn ofynnol ar y Pwyllgor i gyhoeddi ei waith dadansoddi a'i gyngor i'r Llywodraeth ar y cyllidebau carbon pum-mlynyddol - bwriad hynny yw dangos sut mae'r DU yn ceisio cyflawni'r targedau;

Cryfhau gallu'r Senedd i ddwyn y Llywodraeth i gyfrif, trwy ei gwneud yn ofynnol ar i'r Llywodraeth esbonio i'r Senedd ei rhesymau os nad yw'n derbyn cyngor y Pwyllgor ar lefel y gyllideb garbon neu os nad yw'n cadw at y gyllideb neu'n cyrraedd targed;

Rhoi gwybodaeth well a hwyluso'r modd y mae adroddiadau'n cael eu paratoi, gan gynnwys gofyn i'r Llywodraeth gyflwyno adroddiadau blynyddol i'r Senedd ar allyriadau cludiant awyr a môr rhyngwladol, yn unol â Chonfensiwn Fframwaith y Cenhedloedd Unedig ar y Newid yn yr Hinsawdd;  a

Paratoi'r wlad yn well ar gyfer y newid yn yr hinsawdd trwy ei gwneud yn ofynnol i'r Llywodraeth asesu'n rheolaidd y risgiau a ddaw yn sgil y newid yn yr hinsawdd, ac i gyflwyno adroddiad i'r Senedd ar ei chynigion a'i pholisïau ar addasu'n gynaliadwy i'r newid yn yr hinsawdd.

8. Gofynnir hefyd i'r Pwyllgor ar Newid Hinsawdd gyflwyno adroddiad sy'n ystyried a ddylai'r Llywodraeth gryfhau ymhellach ei tharged i ostwng allyriadau carbon deuocsid 60 y cant erbyn 2050 ac ar oblygiadau cynnwys nwyon tŷ gwydr eraill ac allyriadau cludiant awyr a môr rhyngwladol yn nhargedau'r DU.

9. Cadarnhaodd Araith y Frenhines ar 6 Tachwedd 2007 fwriad Llywodraeth y DU i gyflwyno Mesur ar y Newid yn yr Hinsawdd:

"""My Government is committed to protecting the environment and to tackling climate change, both at home and abroad.

A Bill will be brought forward to make the United Kingdom the first country in the world to introduce a legally binding framework to reduce carbon dioxide emissions."

10. Rhoddwyd y Mesur gerbron Tŷ'r Arglwyddi ar 14 Tachwedd 2007. Hyd yma, mae Pwyllgor y Tŷ cyfan yn Nhŷ'r Arglwyddi wedi ystyried y Mesur bedair gwaith a chaiff sesiynau pellach eu cynnal ar 14 Ionawr.

## Y Goblygiadau i Gymru

11. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi cydweithio'n glos â Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig eraill ar y Mesur Newid yn yr Hinsawdd ac mae'r Mesur yn cryfhau galluoedd Llywodraeth y Cynulliad i weithredu ar y pwnc.

12. Bydd gofyn i Weinidogion Cymru gyflwyno adroddiad gerbron y Cynulliad ar eu hamcanion, eu gwaith a'u blaenoriaethau o ran allyriadau nwyon tŷ gwydr ac effaith newid yn yr hinsawdd yng Nghymru ac i gyflwyno adroddiad hefyd ar y gwaith o gyflawni'r amcanion hyn.

13. Caiff Deddf Newid yn yr Hinsawdd ac Ynni Cynaliadwy 2006 ei diwygio i sicrhau mai Gweinidogion Cymru ac nid yr Ysgrifennydd Gwladol sy'n gyfrifol am gyhoeddi canllawiau i awdurdodau lleol Cymru ar y mesurau y gallai'r awdurdodau eu cymryd o ran arbed ynni, ynni adnewyddadwy, tlodi tanwydd a'r newid yn yr hinsawdd.

14. Bydd gofyn bod gan y Pwyllgor ar Newid Hinsawdd aelodau sy'n deall yr amgylchiadau gwahanol yn rhannau gwahanol o'r DU a bydd gofyn iddo ystyried y gwahaniaethau hyn wrth roi cyngor. Rhaid i'r Pwyllgor ystyried yr amgylchiadau gwahanol a geir yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon wrth iddo roi ei gyngor ar gyllidebau carbon, a rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol eu hystyried hefyd pan fydd wedyn yn pennu'r cyllidebau hyn.

15. Llywodraeth y Cynulliad, law yn llaw â Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig eraill fydd yn penodi ac yn noddi'r Pwyllgor ar Newid Hinsawdd. Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn cael gofyn i'r Pwyllgor am ei farn arbenigol wrth iddi ddatblygu a cheisio cyflawni ei thargedau anstatudol ei hun ar gyfer lleihau allyriadau.

16. Caiff Gweinidogion Cymru y pwerau hefyd i lunio cynlluniau masnachu yn y meysydd a ddaw o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol yn y dyfodol a hefyd er mwyn cyfyngu ar weithgareddau sy'n rhyddhau nwyon tŷ gwydr. Rhoddir pwerau penodol iddynt hefyd i brynu credydau offsetio.

17. Bydd gan Lywodraeth y Cynulliad a'r gweinyddiaethau datganoledig ran allweddol i'w chwarae wrth i'r Ysgrifennydd Gwladol bennu cyllidebau carbon ac adolygu targedau. Mae'r Mesur yn sicrhau y bydd gan y gweinyddiaethau datganoledig dri mis i gyflwyno'u sylwadau a bod yr Ysgrifennydd Gwladol yn datgan sut y mae wedi cymryd barn y gweinyddiaethau datganoledig i ystyriaeth, os o gwbl.

18. Mae concordat rhwng Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig wrthi'n cael ei ddatblygu i ddisgrifio sut y bydd y prosesau sy'n cael eu sefydlu gan y Mesur yn gweithio.

## Y Pwyllgor ar Newid Hinsawdd

19. Mae pwyllgor dynodi'n cael ei benodi cyn i'r Mesur ar y Newid yn yr Hinsawdd ddod yn Ddeddf a chyn gwneud y penodiadau ffurfiol. Mae swyddi'r cadeirydd a'r pum aelod wedi cael eu hysbysebu ac mae uwch-swyddog o Lywodraeth y Cynulliad yn cynrychioli'r gweinyddiaethau datganoledig ar y panel penodi.

20. Mae swyddogion o Lywodraeth y Cynulliad yn aelodau o'r gweithgorau dadansoddi a pholisi sy'n paratoi'r ffordd ar gyfer sefydlu'r pwyllgor a phennu cyllidebau. Mae trefniadau'n cael eu gwneud hefyd i secondio aelod o staff Llywodraeth y Cynulliad i weithio yn

ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor.

## B- Y Mesur Cynllunio

Tystiolaeth ysgrifenedig i'w chyflwyno gerbron y Pwyllgor Cynaliadwyedd gan y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai

## Cyflwyniad

21. Mae a wnelo'r dystiolaeth ysgrifenedig hon â'r Mesur Cynllunio, a gyflwynwyd gerbron Senedd y DU ar 27 Tachwedd 2007 a hefyd â goblygiadau'r Mesur i Gymru.

22. Cyhoeddwyd Papur Gwyn, "Planning for a Sustainable Future" gan Lywodraeth y DU yr haf diwethaf. Roedd yn ymdrin â dau brif faes: roedd y cyntaf yn ymwneud â newidiadau arfaethedig i'r fframwaith gwneud penderfyniadau ar gyfer prosiectau seilwaith cenedlaethol eu harwyddocâd gan Lywodraeth y DU; roedd yr ail yn amlinellu cynigion yn ymwneud â chynllunio gwlad a thref yn Lloegr.

23 Amlinellwyd nifer o gamau a fyddai'n cael eu cymryd er mwyn symud y cynigion yn y Papur Gwyn yn eu blaenau, gan gynnwys:

adolygu dogfennau polisi cynllunio;

diwygio is-ddeddfwriaeth; a

sicrhau deddfwriaeth sylfaenol.

24. Y darpariaethau olaf hyn sydd yn y Mesur Cynllunio.

25. Comisiwn Cynllunio Seilwaith

26. Prif fyrdwn y Mesur yw awydd Llywodraeth y DU i symleiddio'r drefn rhoi caniatâd ar gyfer Prosiectau Seilwaith Cenedlaethol eu Harwyddocâd, sy'n cael ei hamlinellu mewn sawl darn o ddeddfwriaeth ar hyn o bryd. Ar yr amod bod y Mesur yn cael Cysyniad Brenhinol yr haf nesaf (2008), bydd ceisiadau o'r fath yn cael eu cyflwyno i'r Comisiwn Cynllunio Seilwaith annibynnol arfaethedig o fis Ebrill 2009 ymlaen, ac ef, yn hytrach na Gweinidogion Llywodraeth y DU, fydd yn gyfrifol am benderfynu arnynt. Y system newydd hon a fydd yn cael ei defnyddio wrth ymdrin â mathau penodol o ynni, trafnidiaeth, dŵr, dŵr gwastraff a phrosiectau gwastraff; bydd yn cynnwys gorsafoedd pŵer, llinellau trydan uwchben, piblinellau a storio nwy o dan y ddaear. Bydd y drefn hon yn effeithio'n bennaf ar Loegr - mae llawer o'r gweithdrefnau rhoi caniatâd wedi'u datganoli yng Nghymru. Yr unig faterion y bydd y Comisiwn Prosiectau Seilwaith yn rhoi caniatâd ar eu cyfer fydd materion sydd heb eu datganoli y mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn penderfynu arnynt ar hyn o bryd.

27. Bydd Adrannau Llywodraeth y DU yn cael paratoi datganiadau polisi cenedlaethol er mwyn cefnogi'r system newydd. Mae'n debyg y bydd datganiad o'r fath ar gyfer pob math penodol o seilwaith, a byddant yn nodi faint o ddatblygu sydd ei angen, yn pennu'r meini prawf ar gyfer penderfynu ar leoliadau ac o bosibl hyd yn oed yn nodi lleoliadau a datblygwyr addas. Heblaw am rai eithriadau posibl, bydd yn rhaid i'r Comisiwn Prosiectau Seilwaith benderfynu ar geisiadau yn unol â'r datganiad polisi cenedlaethol. Bwriedir ymgynghori â'r cyhoedd am y datganiadau polisi cenedlaethol a bydd y Senedd hefyd yn craffu arnynt. Rydym wedi cael sicrwydd yr ymgynghorir yn briodol â Llywodraeth Cynulliad Cymru hefyd.

28. Mae'r Mesur yn amlinellu'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer y Comisiwn Prosiectau Seilwaith, gan gynnwys:

trefn gynhwysfawr newydd ar gyfer rhoi caniatâd, a fydd ar wahân i'r system gynllunio;

pwerau i benodi Comisiynwyr i'r Comisiwn Prosiectau Seilwaith, a bydd Gweinidogion Cymru hefyd yn cael enwebu Comisiynwyr, os dyna'u dymuniad;

pwerau er mwyn i Banelau a sefydlir gan y Comisiwn Prosiectau Seilwaith a Chomisiynwyr unigol ystyried y ceisiadau a gyflwynir i'r Comisiwn Prosiectau Seilwaith;

gweithdrefnau ar gyfer ystyried ceisiadau, gan gynnwys defnyddio rhagor o sylwadau ysgrifenedig, a dibynnu llai ar gyflwyniadau llafar ac ar groesholi;

yr amserlen ar gyfer ystyried ceisiadau a phenderfynu arnynt.

29. Gan fod Llywodraeth y DU wedi cadarnhau na fwriedir i'r Mesur Cynllunio newid y setliad datganoli yng Nghymru, bydd y Comisiwn Prosiectau Seilwaith yn ymdrin â meysydd polisi sydd heb eu datganoli. Yn eu plith y mae gosod llinellau trydan capasiti uwch ar wyneb y ddaear, storio nwy o dan y ddaear ac adeiladu piblinellau. Swyddogaeth bwysig arall yng Nghymru fydd penderfynu ar geisiadau ar gyfer prosiectau ynni ar y tir sy'n cynhyrchu dros 50 megawat a phrosiectau ynni ar y môr sy'n cynhyrchu dros 100 megawat. Nid yw prosiectau o'r fath wedi'u datganoli ar hyn o bryd a phenderfynir arnynt gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Menter a Diwygio Rheoleiddio o dan y Ddeddf Trydan.

30. Mae Llywodraeth y Cynulliad o'r farn bod anghysondeb yn y ffaith bod y pŵer i benderfynu ar brosiectau mawr i gynhyrchu trydan yng Nghymru yn dal i fod yn un o swyddogaethau Llywodraeth y DU a fydd, yn y pen draw, yn cael ei throsglwyddo i'r Comisiwn Prosiectau Seilwaith. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn dal i ddwyn pwysau ar Lywodraeth y DU am y pwynt hwn.

31. Er bod y mater uchod yn eithriad, croesewir yr ymrwymiad i beidio â newid y setliad datganoli yng Nghymru. Mae'r Mesur yn un cymhleth ac mae gwaith manwl ar y gweill er mwyn sicrhau bod ymrwymiad Llywodraeth y DU yn cael ei adlewyrchu'n llawn yn y Mesur.

### Materion yn ymwneud â Chynllunio Gwlad a Thref

32.. Mae darpariaethau yng ngweddill y Mesur sy'n ymwneud â chynllunio gwlad a thref. Mae'n cynnig cyfle i sicrhau dewisiadau pellach a phwerau i newid y system gynllunio yng Nghymru. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn croesawu'r cyfleoedd hyn i ychwanegu at y pwerau cynllunio sydd wedi'u datganoli iddi, ac i'w gwella.

33. Mae'r system cynllunio defnydd tir yng Nghymru yn gyfrifoldeb sydd wedi'i ddatganoli ac mae'r rhan fwyaf o'r darpariaethau newydd yn ymwneud â gwella'r ffordd y mae'r system yn gweithio yn Lloegr ar hyn o bryd. Er hynny, mae rhai o'r mân ddarpariaethau sy'n cywiro camgymeriadau neu enghreifftiau o amryfusedd a gafwyd y gorffennol, neu sy'n ceisio cyflwyno gwelliannau, mewn perthynas ag apelau yn benodol, yn gymwys i Gymru a Lloegr.

34. Mae rhai o'r darpariaethau hyn yn dechnegol iawn eu natur a'r unig beth y mae'r Mesur yn ei wneud yw darparu iddynt fod yn gymwys yng Nghymru, a rhoi pŵer cychwyn i Weinidogion Cymru benderfynu pryd y bydd y diwygiadau hyn yn dod yn weithredol. Mae diwygiadau eraill yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau. Yn yr achosion hynny, eir ati i ymgynghori pan fydd y rheoliadau'n cael eu datblygu.

35. Ymhlith y darpariaethau ar gyfer Cymru a Lloegr y mae'r rhai a ganlyn:

os yw cynllun datblygu wedi cael ei herio yn y Llysoedd, y pŵer i'r Uchel Lys gyfeirio'r cynllun yn ôl i fan penodedig yn y broses gwneud cynlluniau, gan osgoi'r angen i ailddechrau'r Cynllun o'r dechrau;

cau bwlch yn Neddf Cynllunio 1990 sydd, o dan amgylchiadau penodol, yn tanseilio gallu'r awdurdodau lleol i wrthod ceisiadau cynllunio a gyflwynir dro ar ôl tro;

y pŵer i wneud rheoliadau er mwyn codi ffioedd ar gyfer apelau gorfodi ac ar gyfer ceisiadau gan y Goron;

y pŵer i wneud rheoliadau er mwyn codi ffioedd ar gyfer apelau cynllunio;

y pŵer i wneud rheoliadau er mwyn diffinio'n gynhwysfawr yr hyn y dylid ei gynnwys mewn gorchmynion cadw coed, a'r broses ar gyfer eu gwneud, yn ogystal â'r pŵer i ddisodli'r darpariaethau deddfwriaethol presennol.

36. Un o'r darpariaethau eraill yn y Mesur yw'r bwriad i gyflwyno byrddau adolygu yn yr awdurdodau cynllunio lleol i benderfynu ar apelau ar gyfer mathau penodol o geisiadau cynllunio y mae swyddogion wedi'u gwrthod gan ddefnyddio awdurdod dirprwyedig. Darpariaeth arall yw'r pŵer i alluogi'r Arolygiaeth Gynllunio i benderfynu pa fath o apêl i'w ddefnyddio ar gyfer apelau penodol. Ni chafwyd unrhyw ymgynghori yng Nghymru am y diwygiadau hyn, felly bydd y Mesur yn cynnwys darpariaethau a fydd yn galluogi Gweinidogion Cymru i fwrw ymlaen â'r diwygiadau hyn yn ôl eu disgresiwn, os byddant o'r farn, ar ôl mynd ati i ymgynghori, mai dyna fyddai'n briodol. Bydd y darpariaethau hyn yn cael eu cyflwyno yn ystod y cam Pwyllgor.

37. Yn ystod y cam hwnnw hefyd, caiff darpariaeth ei chyflwyno ar gyfer Cymru yn unig mewn perthynas â thir a malltod arno, a hynny er mwyn sicrhau bod y gweithdrefnau ar gyfer hysbysiadau malltod yn gymwys i dir a nodwyd yn yr holl gynlluniau datblygu sy'n bodoli eisoes yng Nghymru; mae'n rhaid wrth ddeddfwriaeth sylfaenol gan na ellir gweithredu hyn drwy is-ddeddfwriaeth.

### Pwerau Gwneud Mesurau

38. Mae'r Mesur Cynllunio hefyd yn cael ei ddefnyddio i sicrhau cymhwysedd deddfwriaethol (pwerau i wneud Mesurau) ar gyfer Cynulliad Cenedlaethol Cymru mewn dau faes sy'n benodol i Gymru:

Cynllun Gofodol Cymru; a

Chynlluniau Datblygu Lleol.

39. O dan y pwerau sydd ganddi ar hyn o bryd, nid yw Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gallu newid strwythur cyffredinol Cynlluniau Datblygu Lleol, y gofynion cyffredinol ar gyfer eu paratoi, na'r pwerau monitro ac ymyrryd sy'n gysylltiedig â hwy. Nid yw Llywodraeth Cynulliad Cymru ychwaith yn gallu diffinio na newid statws Cynllun Gofodol Cymru mewn unrhyw ffordd arall.

40. Bydd pwerau i wneud Mesurau yn galluogi Llywodraeth Cynulliad Cymru i ddatblygu ei pholisïau ar y materion hyn ar yr adeg briodol, gan ymgynghori â rhanddeiliaid yng Nghymru. Mae Llywodraeth y DU wedi cytuno â Llywodraeth y Cynulliad ynglŷn â'r pwerau hyn, a chaiff darpariaethau priodol er mwyn eu cynnwys yn y Mesur eu cyflwyno yn ystod y cam Pwyllgor.

### Ardoll Seilwaith Cymunedol

41. Mae'r Mesur Cynllunio hefyd yn gwneud darpariaeth ar gyfer Ardoll Seilwaith Cymunedol newydd. Nod ardoll o'r fath fyddai sicrhau bod y costau sy'n gysylltiedig â darparu seilwaith er mwyn cynorthwyo i ddatblygu ardal yn cael eu talu, naill ai'n rhannol neu'n gyfan gwbl, gan dirfeddianwyr sydd ar eu hennill am fod gwerth y tir wedi codi. Byddai gallu'r awdurdodau cynllunio lleol i godi'r ardoll yn gysylltiedig â chynnwys y cynllun datblygu. O ystyried bod y cyfrifoldeb dros seilwaith wedi'i ddatganoli i Weinidogion Cymru, mae'n bosibl hefyd y rhoddir y pŵer iddynt hwy godi'r ardoll. Er hynny, gan fod yr ardoll yn debyg i dreth, bernir nad yw'n briodol datganoli rheolaeth dros gwmpas yr ardoll a'r ffordd y bydd yn gweithredu. O'r herwydd, bydd y darpariaethau hyn yn cael eu datblygu ar gyfer

Cymru a Lloegr ar ôl mynd ati i ymgynghori yn ystod y camau priodol.

## Hynt y Mesur

42. Cafodd y Mesur ei Ail Ddarlleniad ar 10 Rhagfyr, a dechreuodd y Pwyllgor graffu arno ar 8 Ionawr. Cyfarfu'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai ag Aelodau Seneddol o Gymru ar 9 Ionawr er mwyn sicrhau bod ganddynt yr holl wybodaeth am yr agweddau hynny ar y Mesur sydd o ddiddordeb i Lywodraeth Cynulliad Cymru.

43. Bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn parhau i gydweithio â rhai o Adrannau eraill y Llywodraeth wrth i'r Mesur fynd drwy'r Senedd, a hynny er mwyn sicrhau bod buddiannau Cymru'n cael eu hadlewyrchu'n llawn yn y ddeddfwriaeth derfynol.

## C - Deddf Arbed Ynni Cartref (HECA)

## Cefndir

44. Daeth y Ddeddf Arbed Ynni yn y Cartref (HECA) i rym ym 1995 yn sgil Mesur Aelod Preifat a symbylwyd gan gyfraniad y sector tai at allyriadau nwyon tŷ gwydr. Hon oedd y ddeddfwriaeth gyntaf erioed i roi cyfrifoldeb ar awdurdodau lleol i ddefnyddio ynni'n effeithiol. Adlewyrchai'r pryder a oedd yn dechrau ymddangos ar y pryd bod angen lleihau allyriadau. Mae HECA, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cadwraeth Ynni 1996, yn gymwys i'r DU gyfan ac mae swyddogaethau Gweinidogion o dan y Ddeddf ar faterion sy'n ymwneud â Chymru wedi'u trosglwyddo i Weinidogion Cymru.

45. Cynllun adrodd yw HECA yn ei hanfod. Drwyddi, mae awdurdodau lleol yn gorfod mesur i ba raddau y mae'r stoc leol o dai preswyl yn defnyddio ynni'n fwy effeithiol. Nod y Ddeddf oedd symbylu gweithredu lleol trwy roi dyletswydd statudol ar bob awdurdod i ddatblygu cynllun arbed ynni (y Cynllun Arbed Ynni yn y Cartref fel y'i gelwir) ac yna i fesur llwyddiant y cynllun a chyhoeddi'r canlyniadau.

46. Mae HECA yn ei gwneud yn ofynnol ar awdurdodau lleol i unio mesurau ymarferol a chost effeithiol sy'n debygol o esgor ar ddefnydd mwy effeithiol o ynni mewn anhedd-dai. Nid yw'r Ddeddf yn gorfodi'r awdurdod lleol i roi'r holl fesurau y mae wedi'u clustnodi ar gyfer defnyddio ynni'n fwy effeithiol ar waith; ond mae cyfrifoldeb ar yr awdurdod i gyhoeddi adroddiad ar hynt ei waith. Un o brif rolau'r awdurdod lleol yw annog ac ysgogi trigolion a landlordiaid i gymryd camau i ddefnyddio ynni'n fwy effeithiol; ac i gynnig y cymhellion, y cyngor a'r arweiniad angenrheidiol iddynt i gymryd y camau hynny.

47. Mae HECA'n weithredol trwy'r DU gyfan ond mae gan bob gweinyddiaeth ddatganoledig y pwer i fynnu ei gofynion ei hun o ran gwybodaeth.

48. Cyhoeddodd y Swyddfa Gymreig ganllawiau statudol ym 1997 i helpu awdurdodau lleol i gydymffurfio â HECA (Cylchlythyr 14/97). Roedd gofyn iddynt lunio adroddiad yn esbonio'r potensial i ddefnyddio ynni'n arwyddocaol fwy effeithiol dros gyfnod o 10 mlynedd o 1 Ebrill 1997. Yn ôl y Swyddfa Gymreig, roedd 'arwyddocaol' yn golygu defnyddio ynni mewn cartrefi 30% yn fwy effeithiol. Anfonodd Llywodraeth y Cynulliad fwy o ganllawiau a meddalwedd gysylltiedig i bob awdurdod lleol yn 2001. Bwriad y feddalwedd oedd helpu awdurdodau lleol i asesu eu mesurau arbed ynni mewn ffordd fwy cyson a dilys. Yn 2003, arwyddodd Llywodraeth y Cynulliad gytundebau polisi unigol gyda phob un o'r 22 cyngor yng Nghymru. Cynhwysent dargedau i arbed ynni domestig - 12% fel arfer.

49. Mae awdurdodau lleol yn gorfod cyhoeddi adroddiadau blynyddol ar eu hymdrechion a'u cyflwyno i Lywodraeth y Cynulliad. Mae tystiolaeth adroddiadau cynnydd awdurdodau lleol yn awgrymu gwelliant ar gyfartaledd o ryw 8% dros y 10 mlynedd at ddiwedd mis Mawrth 2007.

50. Fel rhan o'i rhaglen reoleiddio ar gyfer 2006/07, aeth Swyddfa Archwilio Cymru (WAO) ati i edrych sut yr oedd HECA yn cael ei rhoi ar waith ym mhob un o 22 awdurdod lleol Cymru. Ariannwyd yr astudiaeth gan Fwrdd Gwella Cymru fel rhan o Raglen Cymru ar gyfer Gwella (WPI). Sail y WPI yw adran tri Deddf Llywodraeth Leol 1999 sy'n ei gwneud yn ofynnol ar gynghorau, fel 'awdurdodau gwerth gorau', i 'sicrhau gwelliant parhaus yn y ffordd y maent yn cyflawni eu swyddogaethau, gan roi ystyriaeth i gost, effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd'. Roedd yr adroddiad yn ategu gwaith a oedd eisoes wedi'i wneud gan yr WAO ar reoli ynni a dwr yn eiddo annomestig awdurdodau lleol. Fel astudiaeth o effeithiolrwydd llywodraeth leol, mater i awdurdodau lleol ei ystyried fydd unrhyw argymhellion. Ond, gan fod yr adroddiad yn cynnwys nifer o argymhellion i Lywodraeth y Cynulliad eu hystyried hefyd, gofynnodd y WAO bod yr adroddiad yn cael ei roi gerbron y Cynulliad Cenedlaethol.

51. Mae adroddiad y WAO yn gwneud nifer o argymhellion i Lywodraeth y Cynulliad, ar sail y targedau pellach y daw awdurdodau lleol i gytundeb arnynt ar ôl y cyfnod cyntaf o 10 mlynedd ar 31 Mawrth 2007. Yn fras felly, mae'r adroddiad yn argymell y dylai Llywodraeth y Cynulliad:

roi cyfeiriad clir i awdurdodau lleol iddynt roi anogaeth bod mwy eto o ynni domestig yn cael ei arbed, yn enwedig yn y sector tai preifat;

sicrhau bod targedau arbed yn realistig ac yn fesuradwy ar sail llinell sylfaen gyson, hawdd ei monitro;

datblygu fframwaith ar gyfer cymharu cynghorau â'i gilydd; a

rhannu arferion da ar gyfer defnyddio ynni cartref yn fwy effeithiol.
Y sefyllfa ar hyn o bryd

52. Fel rhan o agenda " 'Creu'r Cysylltiadau' "Llywodraeth y Cynulliad, cynhaliwyd ymynghoriad yn 2005 ar gynigion rhesymoli cynlluniau llywodraeth leol. Y prif sbardun o blaid y rhesymoli hwn oedd bod cynlluniau'n creu diwylliant o gydymffurfio â phrosesau yn hytrach nac o sicrhau canlyniadau a'u bod yn clymu arian a phobl y byddai'n well eu defnyddio efallai i weithio'n uniongyrchol i wella a darparu gwasanaethau cyhoeddus.

53. Cafodd Cynlluniau Arbed Ynni Cartref eu cynnwys yn y cynigion hyn ar am y dylid dod â nhw i ben ac y dylai data alltro a'r targedau a enwir mewn cytundebau polisi fod yn seiliedig ar ddynodyddion perfformiad statudol. Fodd bynnag, cydnabuwyd y byddai angen deddfwriaeth i ddiddymu'r gofynion cynllunio ar gynlluniau sydd ag iddynt sail statudol.

54. Roedd mwyafrif llethol yr ymatebion i'r ymgynghoriad o blaid y syniad o resymoli cynlluniau ac ni chlywyd unrhyw wrthwynebiad i ddiddymu'r gofyn am Gynllun Arbed Ynni Cartref.

55. Mae Llywodraeth y DU yn ymgynghori yn Lloegr ar ddyfodol HECA. Mae'r canlyniadau yn Lloegr yn awgrymu bod y Ddeddf wedi llwyddo i godi proffil arbed ynni mewn awdurdodau lleol ond nad yw, fel yng Nghymru, wedi cyrraedd ei thargedau.

56. Yr opsiwn y mae Llywodraeth y DU yn ei ffafrio yw diddymu'r ddeddfwriaeth ac fel yng Nghymru, rhoi yn ei lle ddynodyddion sy'n seiliedig ar ganlyniadau ac ar leihau allyriadau o $CO_2$ yn hytrach na phroses.

57. Daw ymgynghoriad y DU i ben y mis hwn. Os mai'r canlyniad fydd bwrw ymlaen i ddiddymu HECA, bydd Llywodraeth y DU yn bwriadu defnyddio gorchymyn o dan Ddeddf Diwygio Deddfwriaeth a Rheoliad 1996 fel y cyfrwng deddfu. Bydd hyn hefyd yn destun ymgynghori.

58. Byddaf am ystyried diddymu HECA mewn perthynas â Chymru a hefyd, os bydd Llywodraeth y DU yn bwrw ymlaen â Gorchymyn o'r fath, a ddylai Cymru gael ei chwmpasu ganddo.

59. Rwyf am ystyried y data alldro a'r targedau ar gyfer arbed ynni yn y cartref, hynny fel rhan o'r gwaith ar yr ymrwymiad yn Cymru'n Un i ddatblygu cynllun cenedlaethol ar gyfer arbed ynni a defnyddio ynni'n effeithiol; byddwn hefyd yn rhoi ystyriaeth i argymhellion y WAO.

Jane Davidson AC
Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai
Ionawr 2008